pp Rhagfyr 24.qxp_Layout 1 12/12/2024 6:42 am Page 1

Pris: 50c

# Papur Pawb

Rhagfyr 2024 Rhif 504




tud 4/5 Ysgol Tal-y-bont
tud 6 Yn Naturiol
tud 11 Y Gair Olaf
tud 12 Chwaraeon

# Llwyddiant yn y Ffair Aeaf

Mae cael mynychu'r Ffair Aeaf flynyddol yn Llanelwedd yn arwydd pendant fod y Nadolig ar y ffordd i nifer fawr ohonom. Wedi wythnosau prysur o baratoi, braf unwaith yn rhagor oedd gweld llwyddiant yn dod i ran teuluoedd lleol. Gwelwyd teulu Tynant yn serennu unwaith yn rhagor yn adran y gwartheg. Cipiodd Dol-fach Rob yr ail wobr yn nosbarth y bustych du Cymreig trymaf ac aeth ymlaen i gipio gwobr Is-bencampwr Adran y Gwartheg Duon Cymreig ac hefyd yr Is-bencampwr yn adran y bridiau cynhenid. Daeth Sianco yn bedwerydd, llo wedi ei fagu adref mewn dosbarth cryf o'r Baby Beef. Braf oedd gweld gwerthu'r bustach du ar ddiwedd y cystadlu i gwmni lleol sef Cigyddion Rattray, fel rhan o'i harlwy ar gyfer dathliadau'r Ŵyl.

Ond, i nifer o ddarllenwyr Papur Pawb nid ym myd y bîff yn unig y mae teulu Tynant yn serennu wrth gwrs ond gyda'r dofednod a nifer ohonom yn mwynhau llafur caled y teulu fel rhan o'n cinio Nadolig. Daeth llwyddiant unwaith eto eleni yn yr adran ar gyfer dofednod wedi eu trin gyda sawl gwobr yn cynnwys; 1af a Phencampwr gyda'r Gŵydd a gwobrau 1af a 2ail gyda Hwyaden. Llongyfarchiadau mawr i'r teulu ar eu llwyddiant a phob lwc gyda'r cystadlu i'r dyfodol a gyda'r gwaith caled wrth i ni nesáu at y Nadolig.



*Elgan Evans, Tynant gyda Dol-fach Rob*

Gyda gymaint o fygythiadau a heriau braf iawn ydy gweld bod dyfodol amaethyddol yr ardal yn ddiogel yn nwylo brwdfrydig y genhedlaeth nesaf. Bu llwyddiant unwaith yn rhagor gyda moch Penlan, Talsarn, sef teulu Eifiona Evans, Glan Aber. Uchafbwynt arbennig i'r teulu oedd gweld Mari ac Ieuan Evans yn cystadlu yng Nghystadleuaeth Tywyswyr Ifanc yn adran y Moch a hynny gyda'u cyfnither Martha. Pob un o'r tri yn ennill eu dosbarth ac yn mynd ymlaen i gystadlu yn erbyn ei gilydd. Llongyfarchiadau mawr i Ieuan am gipio pencampwriaeth Tywyswyr Ifanc yr adran gyda Martha yn cipio'r gilwobr.

Dau arall o blant yr ardal fu'n cystadlu yn Llanelwedd eleni oedd Hari ac Ela Williams, Maes y Deri, Tal-y-bont gan gipio'r bumed wobr yn nosbarth tywyswyr ifanc fel pâr rhwng 7 a 12 oed yn adran y defaid. Da iawn chi.

Braf iawn gweld yr ieuenctid yn mwynhau'r cystadlu ac edrychwn ymlaen at ddarllen am eu llwyddiannau yn nhudalennau Papur Pawb am flynyddoedd lawer i ddod!




"Dyw hi ddim yn 'Ddolig eto!"

## Storm Darragh

Dioddefodd yr ardal o effaith y storm a darodd ar Sadwrn cyntaf Rhagfyr. Collwyd y cyflenwad trydan am oriau maieth a syrthiodd nifer o goed o ganlyniad i'r gwyntoed cryfion. Wrth i'r papur fynd i'r wasg, roedd gwasanaeth EE yn parhau heb ei adfer. Bydd mwy o hanes y storm yn rhifyn nesaf y papur.

## Papur Pawb

**Golygydd Cyffredinol:**
Gwyn Jenkins
**(01970) 832560**
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
**golygydd@papurpawb.com**

**Tynnu lluniau:**
Cysyllter â golygyddion y mis

**GOHEBYDDION LLEOL**

**Tal-y-bont:**
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
**832592**

**Parsel Henllys:**
Rhys Huws, Llwyn Onn
**832076**

**Bont-goch:**
Cathryn Lloyd-Williams
**cat_yfoel@hotmail.com**

**Llangynfelyn:**
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
**832573**

**Eglwys-fach/Ffwrnais:**
Lona Mason
lonaacrobyn@btinternet.com
**07507 652092**

**Rhwydweithiau cymdeithasol:**
Ceri Morgan

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**

**Cadeirydd:**
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
**832697**

**Is-gadeirydd:**
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
**832773**

**Ysgrifennydd:**
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
**832344**

**Trysorydd:**
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
**832093**

**Tanysgrifiadau:**
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
**832448**

**Hysbysebion:**
Helena O Sullivan, Bont-goch
**07812 994 008**

**Dylunio:**
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

**Casglu'r Papur:**
Gwenllian ac Arvid Parry-Jones

**Dosbarthwyr:**
Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon; John Evans; Innes Heron

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)


## Golygyddion

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Rhian a Catrin gyda Ceri'n dylunio. Diolch iddynt.

Menna (menna.morgan@googlemail.com) fydd yn golygu rhifyn Ionawr 2025.

Y dyddiad cau yw 3 Ionawr a bydd y papur ar werth ar 10 Ionawr.

## E-bost i'r papur

Mae llun Glyn Harbour o Ysgol Tal-y-bont yn 1960 yn rhifynnau Hydref a Thachwedd wedi creu dipyn o ddiddordeb o fewn ein teulu ni. Bu Gaynor (nid Gaenor) fy chwaer a finnau ynmyfyrio dipyn uwchben y lluniau - ambell i berson nad oeddem yn cydweld arno, ac ambell un arall yn destun atgofion. Fel Rita, cawsom ni hefyd broblem gydag enw'r bachgen yn y rhes gefn.

Un cywiriad bach - nid Vincent Anderson sydd nesaf i Glyn. Dwi'n meddwl mai Vincent James, a oedd yn byw yn Swyddfa'r Heddlu, ydyw. Mi 'roedd ei fam yn aelod o gwmni drama lleol ac yn actores dda. Mi ddaeth y teulu Anderson yn hwyrach, tua 1965 efallai. 'Rwyf yn bendant am hyn gan fy mod wedi bod allan hefo Carol Anderson y ferch ac yn mynd am dro i Henllan cyn i ni fel teulu symud yno yn Nhachwedd 1966!! 'Roedd gan Carol frawd or enw Terry.

*Gwyndaf James*


## Cronfa Eleri



**Blwyddyn 2024 – dros £26,500 i'w rannu**

Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa

Ffurflen gais a manylion ar gael o: **cronfaeleri.cymru**
Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri
Garreg Wen
Tal-y-bont
Ceredigion SY24 5HJ
**Tel:** 01970 832551 **e-bost:** ymholiadau@cronfaeleri.com

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 11eg 2025**

**Amcanion Cronfa Eleri**
*'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'*


## Llythyr

### Gŵyl Cerdd Dant Aberystwyth a'r Fro 2025

Fel y gwyddoch, cynhelir yr Ŵyl Cerdd Dant yn Aberystwyth ar Dachwedd yr 8fed, 2025.

Bydd hwn yn gyfle gwych i ddathlu'n diwylliant unigryw, i gael sylw cenedlaethol i Aberystwyth a'r Fro a chroesawu cannoedd o ymwelwyr yma.

Yr her i ni yn lleol yw codi £50,000. Byddwn yn trefnu digwyddiadau a cheisio nawdd, ond rydym hefyd am roi cyfle i bobl yr ardal gefnogi drwy sefydlu Clwb Cefnogwyr yr Ŵyl, Clwb 11-25.

Mae ffurflen noddi ar gael gen i a byddwn yn ddiolchgar petai unrhyw berson sydd am ymuno yn gallu dychwelyd y ffurflen i mi ar bapur neu yn electronig.

Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth.

*Endaf Edwards (Trysorydd) Ebost: endaf.edwards@btinternet.com*


**Adweitheg**
(Reflexology)
Bethan Ifan – Aberystwyth
**07375 422 608**

**Salon Leri**



Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674


**Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.**

# Dyddiadur

**RHAGFYR**

**15** **Bethel** 10 Geraint Evans
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** Gwasanaeth Carolau Nadolig 4 o'r gloch, gyda mins pei a gwin poeth yn cael ei weini yn dilyn y gwasanaeth

**22** **Rehoboth** 4 Gwasanaeth Carolau Cymunedol, ar y cyd rhwng Eglwys Llangynfelyn a Chapel Rehoboth
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**24** **Bethel** 5.30 Gwasanaeth Noswyl Nadolig yr Ysgol Sul
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** Gwasanaeth Noswyl Nadolig, 4 o'r gloch

**25** **Bethel** 10 Gwasanaeth Bore Nadolig
**Eglwys Sant Pedr, Elerch** 8 Gwasanaeth Bore Nadolig
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** Gwasanaeth a Chymun, 9.30

**27** **Cwis** 8 Wildfowler

**29** **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**IONAWR**

**5** **Bethel** 10 Uno â Seion, Meirion Morris
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**8** **Bethel** 10.30 Cymdeithas yr Ofalaeth, Seion Aberystwyth

**12** **Bethel** 10 Uno â Seion, Huw Roderick
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Cymun Sanctaidd
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**BOB WYTHNOS**

**Cletwr** Dydd Mawrth 1–4 'Clonc a Gweu'



Hoffai Ann Jenkins, Llety'r Bugail a'r teulu ddiolch yn fawr iawn i bawb am alw neu gysylltu adeg colled Gwilym.

Gan ddymuno Nadolig heddychlon a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

pp Rhagfyr 24.qxp_Layout 1 12/12/2024 6:42 am Page 3

# Pobl a Phethe




Ieuan Evans yn cipio pencampwriaeth Tywyswyr Ifanc

**Priodas Aur**
Llongyfarchiadau i Liz ac Eric Roberts, Maes-y-deri, a fu'n dathlu eu priodas aur gyda'u teulu yn ddiweddar.

**Dyweddio**
Llongyfarchiadau i Dyfan Evans, Garn Wen, Tal-y-bont, ar ei ddyweddiad gyda Catrin.

**Colled i'r Llyfrgell**
Mae dwy o aelodau mwyaf disglair y Llyfrgell Genedlaethol wedi ymddeol yn gynnar er mawr golled i'r Llyfrgell. Ym mis Tachwedd gadawodd Lona Mason, Ffwrnais, a Rhian Evans, Glanrafon, eu swyddi. Pob dymuniad da iddynt yn y dyfodol.

**Dathliad arbennig**
Pen-blwydd hapus iawn i Alan Wilson, 7 Dôl Pistyll, Tal-y-bont, sy'n dathlu ei ben-blwydd yn 90 mis yma.

**Cydymdeimlo**
Trist yw cofnodi marwolaeth un o drigolion hiraf Maes y Deri, Barbara Madden, 13 Maes y Deri. Anfonwn ein cydymdeimlad â Patsy, ei gŵr, a'r plant Mark, Mandy, a Stephen a'u teuluoedd.

**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach**
Dros y Nadolig eleni bydd yr eglwys yn cefnogi Lloches Merched Aberystwyth. Mae croeso i bawb gyfrannu anrheg wedi ei lapio a'i osod o dan y goeden Nadolig yn ystod y gwasanaeth carolau ar y 15 Rhagfyr. Plis rhowch label ar yr anrheg gyda manylion "merch" neu "bachgen" ac oedran 0-1/2-4/5-7/ ayb neu oedolyn "dyn" / "merch". Bydd y parseli'n cael eu dosbarthu cyn y Nadolig.

**Cartref Newydd a Ffarwel**
Croeso cynnes iawn i John Holland sydd wedi symud i 2 Penrow, Bontgoch. Gobeithio bydd ef a Wilfried y ci yn hapus iawn yno. Ar yr un pryd rydyn ni'n ffarwalio â Bridget Rose ac yn anfon pob dymuniad da iddi yn ei chartref newydd yng Ngogledd Lloegr.

**Cydymdeimlo**
Trist yw nodi marwolaeth Penny Condry ar b'nawn 27 Tachwedd, yn 102 mlwydd oed. Roedd yn byw yn Ynys Edwin, Ynys Hir ers 1959 a symudodd yna gyda'i diweddar ŵr William Condry, warden cyntaf y warchodfa. Am ddeng mlynedd bu Penny'n gweithio fel ysgrifennydd yn Ysgol Lapley Grange (sef Plas Einion, Ffwrnais erbyn hyn). Penny fu'n teipio a phrawf-ddarllen holl waith Bill ei gŵr; sef 22 llyfr a'i ysgrifau i'r Guardian am dros 40 mlynedd. Wedi marwolaeth Bill, fe gyflwynodd Penny ei archif o nodiadau a ffotograffau i'r Llyfrgell Genedlaethol. Yn ogystal a'i gwaith oes yn hyrwyddo prosiectau pwysig i warchod rhywogaethau a'r amgylchedd roedd Penny yn arddwraig gwybodus a chreadigol, yn aelod brwd o Sefydliad y Merched ac yn berson caredig i'w ffrindiau o bell ac agos. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei theulu a'i ffrindiau.




Criw y Cwtsh Cynnes yn mwynhau eu cinio Nadolig blynyddol yn y Wildfowler, Tre'r Ddôl. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni am goffi rhwng 10 a 12 bob bore Mawrth yn y Neuadd Waelod.

pp Rhagfyr 24.qxp_Layout 1 12/12/2024 6:42 am Page 4



*Antur Amser*



*Nawdd BMO*










*Diwrnod Plant Mewn Angen*



*Diwrnod Plant Mewn Angen*



*Arddangosfa Ruth Jên*



*Diwrnod Plant Mewn Angen*



*Ffair Aeaf*



*Gwersi Offerynnol*

# Ysgol Tal-y-bont

## Ffair Aeaf
Un o'r profiadau mwyaf difyr i'r ysgol ei gael yn ddiweddar oedd manteisio ar wahoddiad i berfformio yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd. Dyma ddigwyddiad diwethaf gweithgareddau Sioe'r Cardis ac roedd hi'n hyfryd gweld y plant yn canu a chwarae offerynnau. Diolch yn fawr i bawb ddaeth i'n cefnogi ac i'r staff am baratoi'r plant. Roeddech chi'n wych blant – pawb ohonoch wedi gwneud eich gorau glas ar y llwyfan mawr.

## Nawdd
Mae'r ysgol yn ddyledus i ddau gwmni lleol am eu nawdd hael i'r ysgol. Rydym yn hynod ddiolchgar i Tristan o Arbcore ac i Bryn o BMO am ddod i gyflwyno'r citiau newydd i ni. Byddwn yn edrych yn wych dros y misoedd nesaf wrth i ni gystadlu mewn gwahanol bencampwriaethau chwaraeon yn yr ardal. Diolch! Diolch! Diolch!

## Ffair y Neuadd
Hoffwn ddiolch yn fawr i bawb am helpu gyda'r stondin ysgol yn y ffair brysur – yn rhieni a phlant! Roedd hi'n hyfryd i weld cymaint o brysurdeb yn y Neuadd Goffa ac ar ein stondin eleni eto. Fel rhan o'r paratoi, roedd aelodau o Ddosbarth Braich Garw wedi cael cyfarfod busnes gyda Paul o'r Lolfa er mwyn cynhyrchu cardiau cyfarch o waith y plant. Mae'n amlwg eich bod yn hapus efo'r safon gan fod llawer o'r cardiau wedi eu gwerthu ar y dydd – diolch yn fawr i'r Lolfa am eu cefnogaeth i'r fenter.

## Diwrnod Plant Mewn Angen
Roedd llawer o brysurdeb eleni eto wrth i ni dynnu sylw at yr elusen bwysig yma. Mae'n draddodiad bellach i aelodau'r Cyngor Ysgol drefnu'r gweithgareddau a hynny'n hollol annibynnol o'r staff! Roedden nhw wedi trefnu gemau gwych, peintio wynebau, stondin gacennau a chystadleuaeth enwi'r tedi. Diolch yn fawr i chi gyd am eich gwaith a da iawn am godi dros £100 tuag at yr elusen.

## Ysgol Iach – Wythnos Gwrth-fwlio
Yn ystod mis Tachwedd roedd hi'n wythnos gwrth-fwlio cenedlaethol ac fe fanteisiodd yr ysgol ar y cyfle i gynnal trafodaethau bywiog am y gwahaniaeth rhwng bod yn gas a bwlio. Er mwyn pwysleisio fod pawb yn wahanol a bod hawl gan bawb i fod yn wahanol, gwahoddwyd y disgyblion i wisgo sanau gwahanol ac fe gafwyd sawl cyfuniad diddorol! Da iawn chi blant am ymateb mor bositif i'r negeseuon.

## Pêl Rwyd
Roedd hi'n wych i weld cymaint o ddisgyblion yn cystadlu mewn cystadleuaeth pêl rwyd yn y ystod y mis. Er gwaethaf y canlyniadau, roedd hi'n hyfryd i weld pawb yn chwarae gyda gwên ac yn mwynhau'r profiad. Diolch yn fawr i Mrs Hughes am ofalu am y tîm ac i'r Urdd am drefnu'r gemau.

## Hoci
Mae llwyddiant rhyfeddol y tîm hoci wedi parhau tan y diwedd! Yn dilyn nifer o gemau yn ystod y tymor, llwyddodd y tîm i barhau gyda'i record di-guro! Roedd hi'n hyfryd gweld cymaint o blant wedi cael y cyfle i gynrychioli'r ysgol ac roedd hi'n bleser gweld y tîm yn cyd-chwarae mor arbennig. Diolch yn fawr i'r staff am fod yng ngofal y plant ac i'r rhieni am gefnogi mor frwd.

## Ysgol Gelfyddydol – Grant Celfyddydol
Cafwyd noson arbennig i ddathlu gwaith Dosbarth Mynydd Gorddu yn ystod mis Tachwedd. Roedd neuadd yr ysgol yn llawn dop a'r plant wrth eu boddau'n dangos eu cymeriadau i'r rhieni ac yn wên o glust i glust o dderbyn eu 'Oscars'. Roedd y gwaith yn gydweithio agos rhwng yr ysgol a Jo Munton o Gwmni Theatig Vagabondi ac wedi para dros gyfnod hir o amser. Hoffwn i ddiolch yn fawr i Gyngor y Celfyddydau am y nawdd sylweddol i hybu agweddau o'r Celfyddydau Mynegiannol gyda'r disgyblion. Diolch hefyd am gefnogaeth gwych y rhieni ac i'r staff am drefnu'r lluniaeth. Digwyddiad gwerth chweil yn wir.

Bydd y gwaith yn parhau yn y flwyddyn newydd ac edrychwn ymlaen i gydweithio gydag artist arall i hybu ein gwaith yn y maes.

## Theatr Arad Goch
Cafodd Blwyddyn 4, 5 a 6 gyfle annisgwyl i weld cynhyrchiad newydd gan Gwmni Theatr Arad Goch ar ddechrau mis Rhagfyr. Enw'r sioe ddiweddaraf yw Cymrix ac mae'n gynhyrchiad sy'n archwilio hunaniaeth Cymraeg a'r iaith Gymraeg trwy lens tri pherson ifanc o brofiadau a chefndiroedd gwahanol. Cafodd plant yr ysgol eu canmol gan yr actorion am ymateb mor aeddfed i'r testun ac am ateb mor synhwyrol wrth drafod.

## Gwersi Offerynnol
Rydym wedi bod yn ffodus iawn o gael Miss Helen i ddod nôl i'r ysgol eleni eto i gyflwyno gwersi offerynnol i Ddosbarth Allt y Grib. Mae'r plant wedi bod werth eu boddau'n cadw rhythmau gwahanol a chwythu'r offeryn pBuzz a chwarae'r ffidil i ganeuon adnabyddus. Yr uchafbwynt oedd dysgu caneuon ar gyfer y Nadolig. Da iawn chi blant am ymateb mor frwd i'r gwersi yma a diolch arbennig i Helen hefyd

## Pont yr Wylfa – Arddangosfa Ruth Jên
Gweithgaredd hynod fuddiol a drefnwyd ar y cyd gydag Ysgol Craig yr Wylfa yn ystod y mis oedd mynd i weld Arddangosfa Ruth Jên yn MOMA, Machynlleth. Roedd yr arddangosfa'n gyfle i weld gwaith printio gan Ruth dros y blynyddoedd a deall sut bod ei harddull wedi newid dros gyfnod o amser. Roedd yn gyfle hefyd i werthfawrogi gwaith lliwgar Jonathan Retallik o Ynys Môn. Diolch o galon i Helen Jones am ein tywys drwy'r arddangosfa a llongyfarchiadau Ruth am safon yr arddangosfa.

## Siarter Iaith – Cynefin ar Gân
Gweithgaredd arall ar y cyd oedd cyfansoddi cân gyda disgyblion o ysgolion eraill Ceredigion gan gynnwys ein ffrindiau o Ysgol Craig yr Wylfa i gyd-fynd gydag amcanion Y Siarter Iaith. Yr her oedd creu cân newydd sbon am yr ardal leol a hynny mewn prynhawn yn unig! Roedd ymateb y plant yn frwdfrydig iawn wrth iddyn nhw enwi nodweddion lleol fel yr Afon Leri ac Afon Ceulan, Llyn Craig yr Pistyll, Chwedl Taliesin a Phen Bryn Pele. Diolch yn fawr i swyddogion y Siarter Iaith am drefnu ac i'r bardd Rocet Arwel Jones am y gweithdy difyr. Bydd y cerddor Mei Gwynedd yn cyfansoddi cerddoriaeth i'r geiriau ac rydym yn edrych ymlaen at y sesiwn recordio ym mis Ionawr.

## Antur Amser
Gyda chymaint o adloniant Saesneg ar gael i'r plant gafaelgar, roedd hi'n hyfryd gallu croesawu Hannah a Rhodri i'r ysgol er mwyn i blant Dosbarth Braich Garw beilota pecyn aml-gyfrwng o weithgareddau addysgiadol yn y Gymraeg o'r enw 'Antur Amser'. Roedd y dosbarth wedi gorfod datrys cod cymhleth er mwyn cael mynediad i gêm cyfrifiadur ac roedden nhw wrth eu boddau gyda'r gêm. Diolch am gael bod yn rhan o'r weithgaredd.

NICEIC
APPROVED CONTRACTOR
**Alun Davies**
Contractiwr Trydanol
**M** 07703 169813
Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
**E** alun.davies142@btinternet.com

Yn **Natur**iol

# Dod â lliw i'r Nadolig

Ydych chi erioed wedi ystyried pam rydyn ni'n dod â phlanhigion lliwgar i'n tai adeg yma o'r flwyddyn? Mae'r arferiad o addurno'r tŷ gyda chelyn a iorwg i gyflwyno peth lliw i dai llwm ym mis Rhagfyr yn hen hen iawn o bosib yn ddefod paganaidd yn gysylltiedig â'r heuldro ond rydyn ni wedi mabwysiadu'r arferiad. Yn ddiweddarach ddaeth yn rhan annatod o ddathliadau'r Nadolig. Deuai'r celyn gyda'i ddail sgleiniog ac aeron coch â lliw i fywydau bobl gyntefig a hefyd gobaith am wanwyn ffrwythlon. I'r Cristion, llawer yn ddiweddarach wrth gwrs, daeth y dail pigog i olygu'r goron ddrain a'r aeron dafnau o waed. Dengys y garol *The holly and the Ivy* y symbolaeth Christnolog yma'n glir a hefyd y garol a'r dôn Gymraeg Nos Galan, geiriau Cymraeg gan Ceiriog, ond yn fwy cyfarwydd yn Saesneg fel *Deck the Halls*. Dengys cofnodion eglwysi o'r G17 bod celyn ac iorwg yn addurniadau cyffredin er i ambell eglwys eu gwahardd oherwydd y cyswllt paganaidd.



Yn yr hen ddyddiau a'r canol oesoedd prin iawn oedd y dewis o blanhigion brodorol bythwyrdd; celyn, iorwg, bocs, ywen a merywen (juniper) yn unig. Tyfai'r tri chyntaf ar hyd a lled Cymru gyda'r uchelwydd yn lleol iawn fel yng Ngwent. Daeth rhos mari gyda'i arogl cryf, persawrus i Brydain yn ddiweddarach. Credir iddi gael ei phersawr wedi i Fair mam Iesu sychu Ei ddillad dros ganghennau'r planhigyn.

Yn draddodiadol ar noswyl Nadolig ddaeth y gwyrddni i'r tŷ; roedd rhaid ei wared cyn Ystwyll (6 Ionawr). Yma yng Nhymru deuai'r gwyrddni i'r tŷ ar Noswyl y Nadolig cyn i'r teulu adael am y capel yn i fynychu'r Plygain rhwng tri a chwech o'r gloch (cyn clochdar ceiliog!). Yn aml, er mwyn cynnal egni y teulu drwy'r diwrnod pwysig, hir gwnaed taffi neu gyflaith y noson gynt, sef Noswyl y Nadolig.

Roedd hi'n ganol y G18 cyn i'r goeden Nadolig, y ffynidwydden, ddod i Brydain er iddi fod yn rhan o lên gwerin ar y cyfandir ymhell cyn hynny. Y Tywysog Albert, gŵr y frenhines Fictoria gyflwynodd y goeden gyntaf i Brydain o'r Almaen yn 1841. Roedd y ffynidwydd yn brin iawn ym Mhrydain felly dim ond o ganol y ganrif honno gwelwyd hwy mewn tai ar ôl ymdrech lew i'w plannu, yn fwriadaol ar gyfer y Nadolig.

Cyn dyfodiad y ffynidwydden torch gron o naill ai wialen neu onnen gyda gwyrddni, ffrwyth a chnau oedd yn gyffredin mewn tai. Os oedd uchelwydd ar gael, rhoi neu derbyn sws oddi tani oedd yr arferiad gan dynnu un aeron o'r dorch bob tro tan oedd y dorch yn foel. Yn y tŷ i groesawu ymwelwyr ac i gadw ysbrydion dieflig draw oedd y dorch; yr un oedd y bwriad wrth ei gosod ar y drws yn yr awyr iach o'r G19 ymlaen.

Mae'r defnydd o blanhigion adeg yma o'r flwyddyn yn ffordd eco-gyfeillgar o ddathlu'r ŵyl ac yn ein clymu ni heddiw gydag hen draddodiad ac yn gymorth i'r traddodiad oroesi i'r G21 gyflym hon. Gadewch i ni fwynhau yr hen draddodiadau, gan wybod ein bod yn cadw yn fyw hen arferion lleol sy'n dyddio'n ôl cenedlaethau.

*Rhys Huws*

Bu Grŵp Coed Tal-y-bont yn plannu 350 o goed ar dir Moelgolmen ar ddiwedd Tachwedd. Roedd 16 (12 o Aberystwyth) yn y grŵp wrthi mewn tywydd teg gyda chacen blasus iawn ar y diwedd.

Yn ogystal daeth 9 at ei gilydd i greu torchau heuldro lliwgar i'w drysau a berwi cawl ar dân yn yr ardd i'w cynnal pan nad oedd y tywydd cystal!

**Os oes diddordeb gennych: Linda 07507 464077 yw'r cyswllt.**

Parhad o rhifyn Tachwedd

**Manteision gwrychoedd**

Yn amlwg mae cysgod i ddefaid, gwartheg a chnydau yn bwysig, yn enwedig efo newid yn yr hinsawdd yn dod a tywydd mwy eithafol a stormus. Mae gwreiddiau gwrychoedd a choed yn caniatau dŵr i droeddio mewn i'r pridd yn haws ac felly yn helpu lleihau llifogydd. Pan mae gwrychoedd ar draws y llethr maent yn lleihau 'runoff' pridd mewn glaw trwm. Mae cynyddu maint a hyd gwrychoedd da ar y fferm yn ffordd ardderchog i helpu natur.

Efallai y gwyddoch bod gwrychoedd yn gynefin o bwys eu hunain yn ogystal a chysylltu cynefinoedd eraill fel corridor i natur. Ond cofiwch ni ellir weld trwy gwrych da. Mae'r aeron, ffrwythau a phryfetach sydd mewn gwrych trwchys yn fwyd i adar, ystlumod, llygod a llawer mwy. At eu gilydd mae rhwng 2000-3000 o greaduriaid yn cysgodi, magu ac yn bwyta yn Gwesty Gwych y Gwrych! Yn enwedig os oes clawdd hefyd, coed mawr neu ffoes wrth droed. Cadwch coed marw os nad ydynt yn beryglus, 'chos maent yn cynnig gwledd o bryfetach i adar a lefydd i 'stlumod fyw.



*Mae'r pathew yn gaeafgysgu yng ngwaelodion ein gwrychoedd ond mae niferoedd yn gostwng*

Mae gwrychoedd, a'r pridd odano, yn cloi carbon ac yn ymsugno'r mwyaf yn y 12 mlynedd cyntaf cyn cael eu torri am y tro cyntaf. Argymhella'r Climate Change Commission ini gynyddu hyd gwrychoedd o 40% erbyn 2050 er mwyn cyrraedd targedau carbon.

**Colli gwrychoedd?**

Ychydig iawn o'n gwrychoedd fyddai'n dal stoc heb ffens a tenau iawn, a bylchau neu wedi troi yn goed yw hanes tua chwarter arall. Dyw rhein ddim yn cynnig y manteision uchod ac mae peryg ini eu colli yn gyfangwbl. Cofiwch ni ellir weld trwy gwrych da!



*Ffrwythau'r hydref*

Mae plygu gwrych yn brin iawn y dyddiau hyn ond mae'n creu gwrych ardderchog. Weithiau fydd angen tocio yr hen goed yn y bôn, plannu yn y bylchau a ffensio i adfer y cwbwl.

**Arfer da**

Torri yn ysgafn i gadw peth o'r tyfiant newydd rhwng 1 Medi a 1 Mawrth. Mae adar yn nythu mis yn gynharach nac yr oeddant 50 mlynedd yn ôl diolch i newid yn yr hinsawdd, felly mae'n bwysig cadw at y dyddiadau.

Torri yn hwyrach yn y gaeaf fel bod adar wedi cael cyfle i fwyta'r aeron, a da ni wedi hel y mwyar duon! Torri mewn siap A meddai rhai, ond ydy hyn yn ymarferol?

Gadael gwrychoedd yn y caeau i dyfu am 3 blynedd ac wedyn torri mesyl rhai, fel bod mwy o aeron ar gael.

I gloi: mae hanes i bob gwrych a mae rhai efo hanes hir. Maent yn rhan o harddwch yr ardal, yn ddefnyddiol i'r ffermwr ac o fantais i natur ond mae cyflwr yn amrywiol. Os am eu cadw mewn cyflwr da at y dyfodol bydd rhaid gofalu yn well am ein gwrychoedd. Mi fydd defaid ac adar yn ddiolchgar!

*Liza Tomos*

pp Rhagfyr 24.qxp_Layout 1 12/12/2024 6:42 am Page 7

# Dr James y Fagwyr

**Roedd Dr James y Fagwyr yn un o ddynion amlycaf yr ardal hon ganrif a mwy yn ôl. Ym 1958 cyhoeddodd Dr Richard Phillips, Llangwyryfon, erthygl ddifyr amdano yn Lloffion Llangynfelyn. Roedd gwraig gyntaf Dr James yn fodryb i Richard Phillips a byddai ef, pan yn blentyn, yn mynd am bythefnos o wyliau i'r Fagwyr adeg Sioe Tal-y-bont ac felly roedd ganddo wybodaeth helaeth am y doctor.**

**Dyma dalfyriad o'r erthygl i gyd-fynd â'r ffotograff o Dr James a dynnwyd gan E O Jones.**



'Cynnyrch gwerinol ardal Llangwyryfon, o wead ac o waed, oedd John James, a rhoi iddo ei enw bedydd. Ganed ef [ym 1857] ar fferm Gilfachgoed neu Gilfachgwd ar lafar gwlad. Fferm fechan o ryw 16 cyfer oedd hon a phrin y gellid ei chyfri yn fferm economaidd ddiogel. 'Roedd enillion y tir yn rhy fychan i gynnal teulu y dyddiau hynny hefyd, a dyna paham yr oedd ei dad, Dafi James, er ei fod yn berchen ei le, eto yn gweithio fel saer yn y cylch. Yr oedd ef yn flaenor yn Nhabor yn godwr canu ac yn frawd i fam Mr.J.M.Jenkins, Neuadd-yr-ynys.

Tipyn o ddirgelwch oedd gwybod sut y llwyddodd y ffermwr bach o Gilfachgoed i godi Doctor yn yr oes honno, gan fod y coleg ymhell, a'r treuliau a'r costau'n uchel. Wrth gwrs 'roedd llawer o ffermwyr wedi rhoi ysgol i'w meibion yn Ystrad Meurig gogyfer â mynd yn offeiriaid, ac yr oedd Doctor arall, Morgan Davies; Llundain wedi hynny, wedi ei godi yn y cylch. Diamau fod John James yn glyfar gyda'r llyfrau ac yn llwyddiannus gyda'r astudiaethau. Wedi graddio, daeth y Doctor i'r Fagwyr yn 1888, ac yn fuan wedyn daeth modryb yn wraig iddo. Bu hi farw yn ifanc ac ymhen rhai blynyddoedd ailbriododd y Doctor â gweddw Mr.Pryse Pryse, Gogerddan, ac aethant i fyw i Lodge Park yn 1909 ac ar ol hynny i'r Borth (yn 1915).

Bu Dr James am gyfnod maith yn feddyg gwlad heb ei fath, yn alluog ac yn barchus, yn addfwyn a chydwybodol ac fe ddygodd urddas i'w alwedigaeth ac fe ddysgodd ufudd-dod i'w orchymyn. Gweithiodd yn galed fore, p'nawn, hwyr a nos. Cofiaf un yn sôn iddo fynd o Langwyryfon i'r Fagwyr - taith o dros bymtheng milltir - ar gefn poni i ymofyn y Doctor at enedigaeth yn 1888. Cyrraedd y Fagwyr am ddeg o'r gloch, ac ar ôl pryd, yn mynd drot, drot ill dau ar bob o boni yn ddigleber hollol. Wedi genedigaeth lwyddiannus yna yn marchogaeth yr holl ffordd yn ôl erbyn toriad y wawr.

'Roedd yn feddyg da hefyd a chlywais ddywedyd na chollwyd yr un o'i gleifion a fu'n dioddef o'r "Flu" yn 1918-19, a bu honno yn achos marwolaeth mwy o bobl nag a laddwyd yn y Rhyfel Byd cyntaf. Ychydig o'r Doctor a welen ni yn y Fagwyr yn ystod y bythefnos wyliau a gefais yno. Ni chodai'n fore, ac wedyn byddai'n gweld ei gleifion yn y surgery ac yn paratoi'r moddion iddynt - pils neu botel i bob un. Âi allan ar ei drafels ar ôl cinio cynnar, a bydden ni'r plant yn ein gwelâu ymhell cyn iddo ddychwelyd. Nid wyf yn meddwl fod ganddo lawer o amynedd â phlant chwaith, ond cofiaf yn dda amdano fel llawer arall yn ardal Tal-y-bont a Thaliesin, 'Roedd yn ddyn corffog, o faintioli ychydig yn fwy na'r cyffredin, ond nid oedd yn ddwylath o daldra. Gwisgai'n drwsiadus bob amser a chadwai farf ddu dros ei wyneb i guddio bwlch yn ei wefus. Yr oedd hollt yn ei daflod hefyd a siaradai'n drwynog. Anodd ei ddeall yn llefaru ar y dechrau. Nid oedd hyn yn anhawster iddo, a chofiaf ef yn cael hwyl anarferol wrth arwain cyngerdd yn Nhal-y-bont noson y sioe flynyddol, ac er cymaint y stŵr yn y cefn, pan godai ei law a'i lais buan iawn y byddai distawrwydd. Ond os oedd ef yn cadw draw, 'roedd modryb neu Bodo Jane yn agos iawn atom, gan ofalu am ein holl anghenion. Hyfrydwch oedd mynd gyda hi yn y cerbyd am brynhawn i lan y môr yn y Borth neu ar y Sul i Nasareth.

'Roedd y Doctor yn hoff o fynd allan gyda'r gwn, a dyna amcan cadw Don yr hen gi mawr coch a gwyn a'r spaniel fach flewog felen, heblaw yr ast oedd yn mofyn y da. 'Roedd llawer o natur ffermwraig dda yn perthyn i modryb, ac yr oedd cynhyrchu llaeth, menyn, wyau a ffowls ar gyfer y tŷ a'r farchnad yn rhan o'i phleserau. Weithiau byddai'r Doctor yn mynd â'r wyau i'w gwerthu i siop Williams Tal-y-bont, - sef tad Mr.B.T.Williams, C.S., Bow Street. Yn wahanol i fferm gyffredin, 'roedd sawl peth yn mynd ymlaen yr un pryd yn y Fagwyr: ffermio, garddio a doctora, pobl yn dod a phobl yn mynd, yr afiach a'r anafus, ac felly 'roedd y gwyliau'n ddiddorol tu hwnt. Ond y rhyfeddod pennaf oedd y stabal a'r tair poni oedd yn mynd â'r Doctor ar ei deithiau yn ei gerbyd neu farchogaeth weithiau, bob yn ail. Y gwas oedd yn gofalu am eu porthi a'u glanhau ac yn rhoi sglein anarferol ar yr harnais a'r byclau, y cerbydau a'r lampau bob bore. Byddai modryb weithiau yn galw am gerbyd, a'r cel du llonydd fyddai hi yn ei gael bob amser. Arferai'r Doctor fynd i'r dref o Landre bob p'nawn Llun gan ddal y trên dau. Cychwyn yn hwyr a mynd ar garlam fyddai'r stori bob amser a'r trên yn y stesion o flaen y Doctor. Ond gofalai'r stesion mastar drwy ffwdan efo un peth neu'r llall gadw'r trên nes iddo gyrraedd.

'Roedd yn rhaid paratoi ar gyfer y Sioe Flynyddol yn Nhal-y-bont, a byddai'r Doctor yn cystadlu yn y 'Turnouts' heb fawr obaith ennill y lle cyntaf gan fod ei gefnder, W.R.Jones, Bryngwyn-mawr, yn un mor llwyddiannus. Bob gwyliau byddem ni'r plant yn cael un trip gyda'r Doctor ar ei deithiau, gan eistedd yn y sedd ôl a oedd wrth gwrs yn wynebu tuag yn ôl. Edrychem ymlaen at y trip hwn, ond ymhell cyn diwedd y dydd 'roeddem wedi hen flino mynd ac aros am oriau mewn un pentref, pan fyddai ef yn ymweled â'r cleifion yn eu tai. Un tro 'roeddem wedi diflasu aros tu allan i dŷ yn Nhaliesin hyd ganol y prynhawn. Wedyn yn cael ar ddeall fod y Doctor wedi cynorthwyo gyda genedigaeth tri phlentyn (triplets), a'r fam a'i phlant yn gwella'n iawn. Yn ei gylch ei hun 'roedd Doctor James yn boblogaidd, yn ŵr dawnus a doniol ac yn mwynhau yfed yn y gyfeillach.


Llwyddodd i ennill parch ac edmygedd pob dosbarth ac, er bod y cyfleusterau'n brin, bu am oes yn ymgeleddu fel cymwynaswr mawr i ardal gyfan. Cafodd ergydion troeon garw yn ystod ei yrfa; colli mab ifanc a cholli priod yn gynnar. Yn y niwl ar y llechweddau dymchwelodd ei gerbyd dros y dibyn fwy nag unwaith, ond arbedwyd ef bob tro. Rhoddodd ei wreiddiau yn Llangwyryfon gadernid a chyndynrwydd ynddo a'i gwnaeth yn drech na'i amgylchiadau. Bu farw yn ŵr o oedran teg ym "Mhenmorfa", ei gartref yn y Borth yn 1929, a chladdwyd ei weddillion mewn man unig ym mynwent Penrhyn-coch. Cofiaf yn dda y deyrnged a dalwyd iddo ddydd ei arwyl.'

## Clwb Cant Neuadd Llanfach

**Enillwyr mis Hydref**:
1. Rhif 54 Tina Green
2. Rhif 35 Josie Smith
3. Rhif 12 Paul Fleming

**Enillwyr mis Tachwedd**:
1. Rhif 61Gwyneth Williams
2. Rhif 104 Phil Regan
3. Rhif 95 J. N. Lewis

**Enillwyr mis Rhagfyr**:
1. Rhif 75 A. M. Jones
2. Rhif 92 Mari Powell
3. Rhif 40 Julie Mayhew



pp Rhagfyr 24.qxp_Layout 1 12/12/2024 6:42 am Page 8

# CFfI Tal-y-bont



*Huw Davies yn addysgu'r aelodau*

Mae wedi bod yn fis prysur iawn i aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc (CFfI) Tal-y-bont, gyda llu o weithgareddau a digwyddiadau cymdeithasol i gadw pawb yn brysur. Dyma grynodeb o'r mis diwethaf:

**Ymweliad i Felin Wynt Llety Ifan Hen**

Ar 12 Tachwedd, cafodd aelodau y fraint o ymweld â melin wynt Llety Ifan Hen, lle'r oedd Huw Davies yn rhannu hanes y felin a'i brosesau. Roedd y noson yn hynod ddiddorol, gan roi cyfle i'r aelodau ddysgu mwy am hanes lleol a'r prosesau sy'n ymwneud â melinau gwynt. Diolch yn fawr i Huw am ei amser a'i wybodaeth werthfawr.

**Paratoi ar gyfer Pantomeim**

Pan wnaeth yr aelodau gwrdd ar 19 Tachwedd, cafwyd trafodaeth frwd am y gystadleuaeth adloniant sydd ar y gweill ym mis Chwefror 2025. Y tro hwn, pantomeim yw'r her! Diolch yn fawr i Elen Penwcm am ddod i'n cynorthwyo gyda syniadau am y sgript. Rydym yn edrych ymlaen at weld y prosiect hwn yn datblygu yn ystod y misoedd nesaf.



*Efa, Betsan a Lleucu a'r stondin tombola*

**Stondin Tombola yn Ffair y Neuadd**

Ar 30 Tachwedd, cynhaliodd y clwb stondin tombola yn Ffair y Neuadd, gan ddenu cefnogaeth wych gan y gymuned. Diolch yn fawr i'r aelodau am fod yn gyfrifol am y stondin. Rydym yn lwcus iawn o'r Neuadd ac am y gefnogaeth gyson i'r digwyddiad poblogaidd hwn, sy'n helpu i gryfhau cysylltiadau lleol a chodi arian.

**Noson Nadoligaidd**

Cafwyd noson Nadoligaidd hwyliog ar 3 Rhagfyr gyda gweithdai arbennig gan Shân James a Non Jones. Dysgodd Shân yr aelodau sut i addurno bisgedi yn gelfydd, tra bod Non yn arddangos y grefft o ddylunio addurniadau pren. Roedd yn noson hwyliog a chreadigol, gan baratoi pawb yn arbennig ar gyfer y tymor Nadolig. Diolch yn fawr i Shân a Non am eu hamser.

**Carolau Cymunedol**

Cadwch glust ar agor ar 17 Rhagfyr, pan fydd lleisiau swynol yr aelodau yn llenwi'r awyr gyda chân. Byddant yn canu carolau o amgylch y gymuned i godi arian at elusennau HAVAV a Beiciau Gwaed. Mae'n ffordd hyfryd i ddod ag ysbryd y Nadolig i bawb ac i gefnogi achosion pwysig.

Diolch yn fawr i bawb sy'n cefnogi gweithgareddau'r clwb – mae eich cyfraniad yn amhrisiadwy. Edrychwn ymlaen at fisoedd prysur a llawn hwyl yn 2025! Nadolig Llawen!

*Ela Jones*

# Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Estynnwyd croeso i Cyril Evans a fu'n trin a thrafod 'hen bethau' yn y cyfarfod a gynhaliwyd yn festri capel Rehoboth ar brynhawn Mawrth, 12 Tachwedd. Mae Cyril Evans yn byw yn Nhregaron, a bu'n gweithio yn y Llyfrgell Genedlaethol nes iddo ymddeol bum mlynedd yn ôl, ac mae'n ymddiddori ac yn casglu hen bethau. Roedd nifer o hen greiriau yn perthyn i rai o'r aelodau wedi eu gosod ar y bwrdd o'i flaen a chawsom ganddo drafodaeth ddifyr ynglŷn â hwy gydag eglurhad manwl amdanynt. Roedd yntau wedi dod ag eitemau hyfryd o'i gasgliad personol ef i'w dangos i ni. Bu'n brynhawn hynod o ddiddorol wrth drin a thrafod yr holl greiriau, a hynny gan fod gan y rhan fwyaf ohonom ein trysor oherwydd i ni gael ein magu mewn cartrefi oedd yn llawn o hen bethau ers talwm. Diolchwyd yn gynnes i Mr Evans am rannu ei wybodaeth helaeth am y pwnc, cyn mwynhau'r te a baratowyd gan Myfanwy Rowlands a Meinir Fleming.



James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111


Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaerniol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

Grant Mayhew Ltd
GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

# Colofn
# Elin a Ben



Gyda diwedd y flwyddyn yn prysur agosau, mae'n parhau i fod yn gyfnod heriol i nifer ohonom yng Ngheredigion, gyda'r frwydr i geisio cadw gymaint o wasanaethau a busnesau yn y sir â phosib.

Roedd yn siom fawr i glywed fod Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi cyhoeddi eu bod yn ystyried dod â'r cyrsiau israddedig i ben yn Llambed, ar ôl 200 mlynedd o ddarparu addysg israddedig yno. Mae hyn yn newyddion gwael iawn i dref Llambed, a byddwn ni'n rhoi pwysau ar y Brifysgol i ailystyried hyn, er lles yr economi leol, y dref, a'r ardal o'i chwmpas.


Mae'r gwasanaeth iechyd yn bwnc llosg hefyd. Mae gan y rhan helaeth ohonon ni brofiad o'r rhestrau aros hir, a nawr daw'r newyddion pryderus nad yw'r Bwrdd Iechyd eto wedi llwyddo i sicrhau contractiwr i ddechrau ar brosiect Cylch Caron. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dweud wrthom eu bod yn parhau i geisio dod o hyd i ddatrysiad ar hyn a fod y prosiect yn flaenoriaeth iddynt. Byddwn ni'n dau yn mynnu diweddariadau cyson, er mwyn sicrhau eu bod yn cadw at eu haddewid.

Gyda chymorth Dolen Teifi o Landysul, rydym wedi llwyddo i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i hwyluso gwasanaethau trafnidiaeth cymunedol yn ne'r sir. Prynwyd dau gerbyd newydd ac mae'r bws yn ardal Llambed ar waith yn barod, a gobeithio bydd yr ail fws yn dechrau ar ei daith yn ardal Llandysul, Llandyfriog, Beulah a Llangoedmor yn yr wythnosau nesaf.

Gofynnwn yn garedig i chi ystyried siopa'n lleol gymaint ag y gallwch chi, yn enwedig wrth i chi baratoi ar gyfer y Nadolig. Mae'n bwysig cefnogi ein busnesau lleol ar adeg sy'n heriol iawn iddynt. Cofiwch hefyd fod cymorth ar gael i helpu gyda chostau tanwydd a gwresogi'n y gaeaf, felly cadwch yn gynnes, ac os gewch unrhyw drafferthion, cysylltwch â ni â'n swyddfeydd, ac fe wnawn ein gorau i'ch cynorthwyo.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi oll.

Cadwch yn ddiogel.
*Ben ac Elin*


*Rhian*
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553







# Sioe Gerdd Ysgol Penweddig

Ar y 13eg, 14eg a 15fed o Dachwedd cyflwynodd Ysgol Gyfun Penweddig sioe gerdd 'Joseff a'r Gôt Amryliw' gyda dros 100 o ddisgyblion yn cymryd rhan boed ar y llwyfan neu efo paratoadau rhwng neu ar gyfer golygfeydd. Roedd gwaith wedi dechrau ar gyfer 'Joseff' ers mis Gorffennaf efo clyweliadau am y darnau gwahanol, ac ers mis Medi roedden ni'n gweithio'n galed i ddysgu'r geiriau a pherffeithio ein symudiadau ar y llwyfan. Dwi'n credu bydd pawb yn cytuno ei fod yn brofiad bythgofiadwy a chawsom ni gymaint o gyfleoedd i gyfathrebu â phobl na fydden ni wedi, heblaw am ymarferion Joseff.

Iwan Finigan oedd yn perfformio darn Joseff a Miriam Llwyd Davies, cyn-ddisgybl o Ysgol Tal-y-bont, oedd y Storïwr. Cefais y fraint o berfformio darn Asher, un o'r un ar ddeg brawd, ac roedd Alaw Morgan, Ela Jones, Alys Jarret a Mari Evans, cyn-disgyblion Ysgol Tal-y-bont, a Lois Roberts, o ardal Bontgoch, yn rhan o'r corws. Betsan Cleary o Bontgoch oedd yn perfformio darn Mrs Potiphar.

Diolch yn fawr i Mrs Catrin Mai Davies, Mr Aled Myrddin a Rachel West am eu holl waith caled.
*Caoimhe Melangell*

---

# Cywydd coffa i berson a fu farw yn 2024

gan Vernon Jones, Bow Street (Ceulanydd)

**Gwilym Jenkins, Tyngraig, Tal-y-bont**

Mai oer, nid rhwydd ysgwyddo
Gŵr hael o'i Fethel i'r gro.
Y Gwilym praff di-goleg,
Llyfr y tir fu'n lleufer teg.

Dros gefn gwlad ceidwad cadarn
Brwydro fel Cymro i'r carn.
Rhag i fforest ymestyn
Dros frest Lluest Moel Llyn,
Mynnai roi y meini'n rhes
Ar gloddiau Caerarglwyddes.

Arloeswr pridd y ffriddoedd
O hil doeth bugeiliaid oedd,
Achles i fuches a fydd
Manwair iraidd y mynydd.

Ein cyfoed, hawdd yw cofio
Eithin aur ei frethyn o.

*Enillodd Vernon Jones wobr yn Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen am ei gywydd Er Cof am Gwilym Jenkins.*






# Arglwyddes Castell Glandyfi

Dros y canrifoedd bu Castell Glandyfi ym meddiant sawl teulu uchel-ael ond yn sicr y perchnogion enwocaf os nad cyfoethocaf oedd Sir Bernard Docker a'i wraig Lady Norah.

Ffug gastell yw Glandyfi yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ond yn edrych dipyn yn hŷn o ran pensaernïaeth. Yng nghanol y ddeunawfed ganrif symudodd Edward Jeffreys o Amwythig i Geredigion i fuddsoddi yn y diwydiant mwyngloddio. Prynodd ystâd Ynyshir gan gynnwys tir caregog uwchben yr afon Dyfi. Yn sgil marwolaeth ei feibion, etifeddwyd y stad gan ei frawd George ac aeth yr ail Jeffreys hwn ati ar fyrder i adeiladu'r castell. Cwblhawyd y gwaith yn 1819 a heidiodd y byddigion i'r plasty. Yn 1820 priododd y bardd a'r nofelydd Thomas Love Peacock (*The mountain sheep are sweeter but the Valley sheep are fatter)* Jane Gruffydd ar y safle. Yn 1906 daeth y stad 370 erw a'r castell i ddwylo Lewis Pugh Pugh, Aber-mad.

Pasiodd perchnogaeth Glandyfi o un teulu ariannog i'r llall ac yna yn 1950 prynwyd y lle gan Sir Bernard Docker a'i wraig Norah. Roedd Sir Bernard yn brif gyfarwyddwr cwmni BSA – y Birmingham Small Arms Company – cwmni yn cynhyrchu arfau a motobeics. Talodd £12,000 am y castell a gwario o leiaf ddwy waith eto ar adnewyddu a gwella'r adeilad – cyfanswm o £1.3 miliwn yn arian heddiw. Cyllid y cwmni sicrhaodd y pryniant a'r gwelliannau a daeth Sir Bernard a'i wraig yn enwog am wario arian fel dŵr.

Ganed Norah yn Derby yn 1906 yn ail blentyn i Sydney ac Amy Royce Turner. Symudodd y teulu i Birmingham ar ôl i'r tad fuddsoddi mewn busnes gwerthu ceir. Yn ferch ifanc daeth yn hostess a dawnsiwr yn y Cafe de Paris yn Llundain a chychwyn ar ei thaith i lwyddiant. Priododd dair gwaith gyda phob gŵr yn gyfoethog: y cyntaf yn berchen cwmni gwirodydd, yr ail yn gyfarwyddwr Fortnum & Mason a Bernard Docker yn drydydd.

Yn ogystal â rheoli BSA roedd Sir Bernard yn gyfarwyddwr cwmni ceir Daimler. Mewn cymhariaeth â Rolls Royce a Bentley roedd gwerthiant Daimler yn isel gyda'r moduron yn cael eu gweld yn ddifflach a hen-ffasiwn. I hybu gwerthiant lansiodd Norah ymgyrch yn y cyfryngau trwy greu yr enwog Docker Daimlers. Roedd moethusrwydd y ceir yn anhygoel – dolenni drysau o aur neu arian, carpedi gwlân a'r seddi o ledr crocodeil neu sebra. Ar fonet un o'r ceir roedd model aur o ddawnswraig noeth, neb llai na Norah ei hun. Unwaith eto cyllideb BSA dalodd am y buddsoddiad a'r holl sbloet. Yn lansiad un o'r Daimlers yn sioe foduron Paris gwisgodd Norah got minc gwerth £5000 a chyfiawnhau'r gwriant fel cyhoeddusrwydd effeithiol!

Nid oedd pall ar y gwario. Byddai Sir Bernard a Norah yn rhuo ar hyd y lonydd culion o gwmpas y castell yn y ceir swanc. Yn y castell ei hun gosodwyd llefydd tân o farmor Eidalaidd, mewnforiwyd y carpedi o Dwrci ac yn yr ardd crëwyd llwybr o wydr poteli jin. Hyn i gyd yn eithriadol o wrthun o'i osod yn erbyn cwtogi yr ail ryfel byd a barhaodd tan 1954.

Daeth y cyfan i ben yn 1956. Oherwydd bod cwmnïau BSA a Daimler yn agos at feth-daliad galwyd cyfarfod brys o'r cyfranddalwyr a rhoddwyd y sac i Sir Bernard. Gwerthwyd Castell Glandyfi a symudodd y ddau i Jersey i osgoi talu treth incwm. Yn goron (neu felltith) ar eu tranc cafwyd cweryl â'r Tywysog Rainier a'r Dywysoges Grace, Monaco. Arferai Bernard a Norah dreulio rhan o bob haf yn Monaco ac mewn gwledd yn ystod eu hymweliad yn 1958 sarhaodd Norah y Tywysog a rhwygo baner y wlad. Y canlyniad oedd gwahardd ef a hithau o'r dywysogaeth.



*Norah Docker*

Yn saith deg saith mlwydd oed bu farw Lady Norah Docker ar yr 11 o Ragfyr 1983 yn y Great Western Hotel uwchben gorsaf Paddington yn Llundain. Collodd ei gŵr yn 1978 a gyda diflaniad y cyfoeth ciliodd y ffrindiau. *Now we feel alone in this world, long since forgotten by those we helped, with only a handful of true and trusted friends remaining. It is sad to say, after all that has happened, that the world has become a lonely place for us. Those who professed to be our friends, stayed only as long as the apple looked inviting. Then they disappeared.*

Yr Arglwyddes Norah Docker, a elwir gan rai mewn cyfnod llai goleuedig fel 'Naughty Norah', cyd-berchennog Castell Glandyfi, dynes y sgandal a'r ceir moethus, dynes o flaen ei hamser ym myd marchnata roedd yn gwybod sut i fwynhau bywyd i'r eithaf.

*GIE*

# Cletwr

Achosodd Storm Darragh ychydig o broblemau inni ac yn ystod y mis diwethaf cawsom sgwrs ddifyr iawn gan Juliet Regan am fywyd a gyrfa ei mam, gwyddonydd pridd arloesol. Aeth Ffair Grefftau Cletwr yn dda o ystyried y tywydd a diolch i Ailsa a'r Arising Singers am ddarparu'r gerddoriaeth.

Er bod y Nadolig yn dyfod , mae dal amser i archebu eich twrci (o Benparcau) cyn y 16eg a'ch archebion ffrwythau a llysiau (erbyn y 18fed) i'w casglu o Cletwr Noswyl Nadolig. Byddaf yn siomedig iawn os na fyddwn ni wedi gwerthu ein holl stoc tymhorol arbennig - mae gennym gardiau (Cymraeg a Saesneg), mins peis, 'Diléit Twrcaidd', llawer o siocledi, a llawer mwy. Gallwch wneud eich bywyd ychydig yn haws drwy archebu ein stwffin cartref, saws bara, coleslo, mins peis a bara brith. Bydd angen derbyn eich archebion erbyn yr 20fed os gwelwch yn dda. Mae ffurflenni archebu ar gyfer popeth ar gael yn y siop.

Yn dilyn ein dangosiad diweddar llwyddiannus iawn o "Spirited Away" mae gennym ddilyniant. Ar ddydd Llun 30 Rhagfyr byddwn yn dangos ffilm Japaneaidd animeiddiedig arall, "Howl's Moving Castle" (yn Saesneg), sy'n addas i'r teulu cyfan. Bydd y drysau'n agor am 6pm gyda bar, popcorn ac ati ar gael. I'r dyfodol, rydym yn bwriadu gwneud ein Nosweithiau Ffilm yn ddigwyddiad rheolaidd (misol?), gydag amrywiaeth o ffilmiau (nid dim ond animeiddio Japaneaidd), gan gynnwys rhai yn Gymraeg. Bydd hefyd noson o Jazz ym mis Ionawr (dyddiad i'w gadarnhau).

Bydd Cletwr ar gau Ddydd Nadolig, Gŵyl San Steffan a Dydd Calan, ond ar agor fel arall. Bwriedir cadw at yr oriau arferol, er efallai y byddwn yn cau ychydig yn gynnar. Fodd bynnag ni fydd bwyd poeth ar gael gan y bydd y gegin ar gau o'r 25 Rhagfyr ac yn ail agor ar 2 Ionawr. Nadolig llawen ichi i gyd

pp Rhagfyr 24.qxp_Layout 1 12/12/2024 6:42 am Page 11

# Merched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch

Cynhaliwyd cyfarfod o Ferched y Wawr yn y Neuadd Goffa yn ôl ein harfer. Cafwyd noson hwyliog o greu cardiau Nadolig o dan gyfarwyddyd Gillian Olewicz, Llandre. Llwyddodd pawb i greu cardiau lliwgar a diddorol. Diolch i Gweneira am drefnu'r noson ac i Mair Rowlands ac Enid Evans am baratoi cwpaned a bisged i gloi'r noson.

# Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Yng nghyfarfod mis Tachwedd, estynnodd y Cadeirydd ddiolch i'r Cyng. Nest Jenkins am roi'r darlleniad Cymraeg yng ngwasanaeth Sul y Cofio ac am ddarparu'r ddwy dorch goch, ac i'r Cyng. Nia Richards am roi'r dorch wen at ei gilydd a Ffion Davies am ei gosod. Estynnwyd diolch hefyd i Eifion Jones am drefnu'r holl waith ar y llwybr troed trwy'r fynwent a'r ffens newydd ar y ffin â'r ffordd fawr, ac i'r Cynghorwyr Enoc Jenkins ac Elgan Evans am dacluso tipyn yn y rhan newydd o'r fynwent yn ddiweddar.

Mae'n debyg bod yna oleuni ar ddiwedd y twnnel i'r rheiny sydd â mesuryddion clyfar ym mhentref Bont-goch, gydag o leiaf rhai cartrefi bellach yn mwynhau cysylltiad derbyniol. Mae pethau hefyd yn edrych yn dda i'r Cwtsh Cynnes, wedi i grant o £1,000 gael ei ddyrannu gan CAVO i'w gynnal am flwyddyn arall.

Bydd y Cyngor yn dyrannu grantiau 2024-25 ym mis Ionawr, felly gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau lleol. Dylid cynnwys disgrifiad o weithgareddau'r mudiad, nifer y bobl a fyddai'n elwa, y modd y gallai gweithgarwch y mudiad fod o fudd i fioamrywiaeth a'r amgylchedd lleol, a manylion unrhyw brosiectau arbennig lle bo hynny'n berthnasol. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau fydd 10 Ionawr 2025.

Llongyfarchiadau i enillwyr Clwb 200 mis Tachwedd:
1af – Gruffudd Jones, 2il – Aeron Edwards, 3ydd – Nia Peris

*Bydd yr enillwyr nesaf yn cael eu dewis ym mis Ionawr.*

## Cynnal a chadw mannau gwyrdd lleol

Gwahoddir tendrau am gontract cynnal a chadw mannau gwyrdd Ceulanamaesmawr am y tair blynedd nesaf.
Y dyddiad cau fydd 20 Ionawr 2025.
I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â'r Clerc:
**CyngorCMM@gmail.com**




# Y Gair Olaf



Mae'n beth naturiol iawn i bob un ohonom sydd wedi cyrraedd oed yr addewid i edrych yn ôl i gyfnod ieuenctid a chanol oed hefyd, ac edmygu yr hyn i ni oedd yn dda yn y cyfnod hwnnw. Un o'r pethau yr oeddwn i yn bersonol yn hoff o'i wneud oedd mynd am dro ar ôl swper ar draws y caeau yma ym Mhenywern a gweld y llu adar oedd yma'n bodoli, adar fel y gylfinir, y gornchwiglen, cyffylogod a gïach (*snipe*) sydd bellach yn anffodus wedi hen ddiflannu. Roedd yr adar hyn fel arfer yn hoffi bodoli ar dir gwlyb brwynog, roedd gan y rhan fwyaf ohonynt big hir, modfeddi o hyd, i fedru tyllu i mewn i'r ddaear am eu bwyd.

Yn anffodus ac yn ddieithriad maent wedi diflannu, nid wyf fi yn bersonol wedi gweld yr un ohonynt ers degawdau. A'r cwestiwn mawr mae rhywun yn ei ofyn ydi, Pam? Beth sydd wedi bod yn achos i'r fath golled, sydd hefyd yn drychineb.

Mae yna bobl broffesiynol rwyn siŵr sy'n gwybod yr ateb, ac os oes yna ateb mi fyddai'n braf cael gwybod beth ydyw.

Ond diolch byth mae yna lygedyn o oleuni ar y gorwel, aderyn arall a oedd yma'n rheolaidd flynyddoedd yn ôl oedd y dylluan wen yn nythu mewn twll mewn coeden onnen ger y tŷ, fe ddiflannodd hithau fel y lleill. Ond yn ystod yr haf eleni mae'r dylluan wedi dychwelyd ac wedi cartrefu yn un o'r adeiladau ac i'w gweld yn rheolaidd, felly newydd da, a byw mewn gobaith.

*Bob Williams*






pp Rhagfyr 24.qxp_Layout 1 12/12/2024 6:42 am Page 12



## Dechrau da i'r tymor

Mae tîm Tal-y-bont wedi cael dechrau cadarn i'r tymor hyd at ddiwedd 2024. Yn ddi-guro yn y gyngrhair, mae pethau yn edrych yn addawaol wrth fynd i mewn i 2025.

Cafwyd dwy gêm gyfartal 2-2 yn erbyn ail dîm Rhayader ar ddechrau'r tymor, ag yna yn erbyn yr hen elyn Corris yw'r unig bwyntiau llawn mae'r bechgyn wedi methu â'u cipio yn y gynghrair. Cafwyd perfformiadau cofiadwy yn erbyn Borth wrth ennill 1-0; i ffwrdd yn erbyn ail dîm Rhayader gyda gol unigol wych gan Dyfri Cunnignham o'r linell hanner yn sicrhau buddugoliaeth 1-0; ag yna curo Padarn 2-1 gyda Tomos Benjamin yn sgorio'r gôl fuddugol.

Mae cyfuniad da o fewn y garfan eleni o fechgyn ifanc a rhai profiadol, a braf gweld sawl aelod o'r garfan yn fechgyn lleol o'r pentref. Fe arwyddodd Rich Williams i'r clwb ym mis Hydref, ag ma'i brofiad ef wedi bod yn allweddol i'r canlyniadau a perfformiadau boddhaol diweddar. Mae Rich wedi sgorio 5 gôl mewn 6 gêm hyd yn hyn.

Yn anffodus ni fu llwyddiant yn y cystadlaethau cwpan a gafodd ei chwarae yn gynnar yn y tymor. Collwyd 6-1 lawr yn Aberteifi yng nghwpan Coffa Dai. Er i ni greu sawl cyfle yn yr hanner cyntaf, mi roedd Aberteifi yn rhy gryf dros y nawdeg munud. Collwyd hefyd gartref yng nghwpan Emrys Morgan, yn erbyn Waterloo Rovers o'r Trallwng. 4-0 oedd y sgôr terfynol yn erbyn tîm sydd yn chwarae ar lefel yn uwch na Thal-y-bont. Eto i gyd cafwyd perfformiad da gan y bechgyn. Efallai bod y ddwy gystadleuaeth yma yn dod yn rhy gynnar yn y tymor i'r clwb, o ystyried mai dim ond un gem gynghrair a chwaraewyd cyn hynny.

Felly wrth edrychwn ymlaen at weddill y tymor yn 2025 - mae digon i'w chwarae amdano, gyda'r gyngrhair a dau gwpan lleol yn y fantol.

*Evan Rowlands*


*Tomos Benjamin*


*Dyfri Cunnignham*

argraffu
lleol a rhesymol

y lolfa
Talybont Ceredigion SY24 5HE
01970 832 304 /www.ylolfa.com
Holwch Paul am bris: paul@ylolfa.com

Cronfa Cyfle i Bawb
Rhoi gwyliau i blant a phobl ifanc difreintiedig Cymru

Gyda bron un plentyn ym mhob tri yn byw mewn tlodi yng Nghymru, mae Cronfa Cyfle i Bawb yr Urdd yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael y cyfle i fwynhau gwyliau haf.
Bydd eich cyfraniad yn rhoi cyfleoedd a phrofiadau bythgofiadwy i blant yn un o Wersylloedd Haf yr Urdd.

Bydd rhodd o £220 yn cyfranu at weithgareddau, trafnidiaeth, llety, a bwyd i un plentyn yn un o wersylloedd haf yr Urdd. Drwy roi rhodd byddwch yn derbyn bathodyn pin arbennig a cherdyn post o'r gwersyll haf.

Rydym yn gwerthfawrogi pob cyfraniad, fawr neu fach.

"Rydym mor ddiolchgar i'r gronfa am allnogi fy mab i gymryd rhan mewn gweithgareddau bendigedig drwy gyfrwng y Gymraeg mewn awyrgylch ddiogel. Roedd yn wên o glust i glust trwy gydol gweddill y gwyliau."
- GOFALWR MAETH

Sut i wneud cyfraniad:
- Gwefan yr Urdd: urdd.cymru/cronfa
- Anfon siec yn daliadwy i Urdd Gobaith Cymru
- Ffonio gwersyll Llangrannog ar 01239 652140



Cyfrannwch heddiw
Urdd